**Rhif: 1**

| | |
| --- | --- |
| **Rhif y Cais:** | **C22/0136/03/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **23/02/2022** |
| **Math y Cais:** | **Amrywio Amod** |
| **Cymuned:** | **Ffestiniog** |
| **Ward:** | **Teigl** |
| **Bwriad:** | **Cais dan Adran 73 i amrywio amod 2 ar gais cynllunio 5/59/500 (Estyniad i Chwarel Lechi ac Ail-alino Ffyrdd Chwarel) i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2048 yn Chwarel Cwt y Bugail, Cwm Teigl, Llan Ffestiniog.** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Manod, Llan Ffestiniog, LL41 4RF** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

1. **Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio 1990 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio 5/59/500 (Estyniad i Chwarel Lechi ac Ail-alino Ffyrdd Chwarel) i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2048 yn Chwarel Cwt y Bugail (Manod).

1.2 Lleolir Chwarel Cwt y Bugail ar grib y Manod Mawr ac mae'n cynnwys chwareli Manod, Graig Ddu a Bwlch y Slater. Mae mynediad cerbydol i'r safle ar hyd ffordd ddi-ddosbarth sy'n dringo o bentref Llan Ffestiniog gan ddirwyn ei ffordd drwy Gwm Teigl. Mae'r chwarel yn cynnwys ardal i brosesu a storio a leolir ar ardal o lwyfandir (wedi ei greu o domen gwastraff llechi) ar lethrau dwyreiniol y mynydd. Mae'r ardal brosesu yn cynnwys siediau torri, ardal storio, siediau ffitio, maes parcio staff, swyddfa a chyfleusterau llesiant.

1.3 Mae llwybr cludo yn esgyn o'r ardal brosesu i'r grib ac o amgylch gwagle'r chwarel i'r lle y gellir cael mynediad i'r arwynebau gwaith a'r ardal tipio gwastraff ar ffin orllewinol y safle.

1.4 Nid yw ardal brosesu'r chwarel, y siediau torri, gweithdai, maes parcio staff ac isadeiledd cysylltiedig eraill i'r dwyrain o wagle'r chwarel wedi eu cynnwys yng nghaniatâd cynllunio 5/59/500. Er hynny, mae'r Cytundeb Adran 106 cysylltiedig yn berthnasol i'r holl safle ac yn sicrhau bod cynigion adfer yn cael eu gweithredu.

1.5 Mae ardal gronnus gwaith y chwarel sydd wedi ei chynnwys yn y cais cynllunio yn fwy na 25ha ac felly dros drothwy datblygiadau Atodlen 1 dan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017. Cyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol (DA) fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) mewn ymateb i'r gofyniad hwn.

2. **Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017.**

PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd.

TRA 2: Safonau Parcio.

TRA 4: Rheoli ardrawiadau trafnidiaeth.

PS 5: Datblygiad cynaliadwy.

PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

PCYFF 1: Ffiniau datblygu.

PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu.

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle.

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 5: Rheoli Carbon.

PCYFF 6: Cadwraeth dŵr.

PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus.

PS 19: Gwarchod a lle fo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol.

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig.

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol.

AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol.

PS20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth.

AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi.

AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad.

PS 22: Mwynau.

MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau.

MWYN 2: Ardaloedd a Ffafrir.

MWYN 3: Datblygiadau Mwynau.

MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau.

MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal.

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA): 'Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

CCA - Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 - Chwefror 2024).

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (NCTM1) Agregau.

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn.

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth.

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- 5/59/500 'Estyniad i Chwarel Lechi ac Ail-alino Ffyrdd Chwarel' cymeradwywyd gydag amodau ar 12/09/2005.
- 5/59/2A 'Ymestyn terfynau cloddio ar wyneb chwarel lechi' cymeradwywyd gydag amodau ar 29/03/1991.
- 5/59/C2 Caniatawyd gydag amodau ar 15/12/1989.
- 5/59/C1 'Siediau llifio llechi newydd' cymeradwywyd fel datblygiad a ganiateir.
- 5/59/C1 'Siediau cynnal a chadw arfaethedig' - cymeradwywyd (datblygiad a ganiateir) ar 17/06/1986.
- P.I.A.W. 5/14/278 'Codi melin naddu llechi (bwriad diwygiedig) Chwareli Llechi Manod, Ffestiniog' cymeradwywyd gydag amodau 28/09/1978.
- P.I.A.W. 5/14/278 'Cynlluniau manwl i godi melin naddu llechi. Chwarel Manod, Ffestiniog caniatawyd gydag amodau ar 29/03/1978.
- 5/14/278 'Cais amlinellol i godi melin naddu llechi, Chwarel Lechi Manod, Ffestiniog - cymeradwywyd gydag amodau ar 29/03/1978.
- 1108/9/1 (U Ffes 98) 'Gweithrediadau mwynau' caniatawyd yn ddiamod; er hynny yn rhinwedd Deddf Mwynau 1981 mae dyddiad gorffen gorfodol sef 22/02/2042.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned: | Derbyniwyd ymateb ar 10/03/2022 |
| | Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi'r cais hwn. Un pryder a godwyd oedd cynlluniau'r cwmni i ddychwelyd y safle yn ôl i'w stad naturiol gwreiddiol. Tybed a oes modd i'r cwmni gychwyn ar y gwaith hwnnw rŵan ar y tomenni sydd wedi gorffen â nhw? Teimlwyd byddai cychwyn y gwaith hwnnw rŵan ar darnau o'r safle sydd yn segur, yn lleihau'r baich ar y cwmni i'w gwblhau yn 2048. |
| Yr Uned Drafnidiaeth: | |
| Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus: | Derbyniwyd ymateb ar 04/05/2022:<br>Sylwadau – Cyfeiriaf at y cais uchod. Nid yw hi'n ymddangos fod unrhyw Hawliau Tramwy sydd wedi eu cofnodi fydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma.<br><br>Sylwadau - Rhaid sicrhau y gofalir am lwybr cyhoeddus rhif 54 ar ôl ac yn ystod y datblygiad hwn. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Derbyniwyd yr ymateb ar 05/05/2022: |
| | Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod, a dderbyniwyd gennym ar 25 Chwefror 2022. Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd oherwydd bod gwybodaeth annigonol wedi ei |

darparu i gefnogi'r bwriad. I oresgyn y pryderon hyn, dylech geisio rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynglŷn â'r dirwedd warchodedig. Os na ddarperir y wybodaeth yma, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio yma. Ceir manylion pellach isod.

Tirwedd Warchodedig

Rydym wedi adolygu y bwriad cynllunio o safbwynt yr effeithiau ar gymeriad y dirwedd, mwynderau gweledol a thawelwch Parc Cenedlaethol Eryri (PCE). Mae'r cais yma yn ceisio ymestyn y cyfnod cloddio a gweithio mwynau i'r 31 Rhagfyr 2048. Mae'r cais yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i newidiadau i linell sylfaenol y dirwedd, polisi cynllunio ac addasrwydd y cynigion a'r cynigion adfer a gymeradwywyd yn flaenorol er mwyn cefnogi'r canlynol:

• PCC11 cadw a gwella Parc Cenedlaethol Eryri; a

• Polisi Datblygu 1 Parc Cenedlaethol Eryri: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1)

Y dirwedd a'r cyd-destun gweledol

Lluniwyd ffin PCE fel nad oedd yn cynnwys Chwarel y Manod, ond mae elfennau o'r datblygiad cysylltiedig yn effeithio ar gymeriad PCE. Mae gan ben Cwm Teigl a'r Migneint gymeriad gwyllt, ucheldirol o ran y dirwedd gyda nodweddion harddwch naturiol cryf (garwder, tir orchudd naturiol helaeth yn bell o unrhyw anheddle) fel y dangosir yn asesiad SLR o'r dirwedd a'r hyn sy'n weledol o bwyntiau 4,5, 6 a 7.

Yn weledol, mae'r chwarel ei hun wedi ei chynnwys mewn un man ac eithrio'r arwynebau sydd wedi eu gweithio sydd ar y gorwel. Mae'r Asesiad Effaith Weledol ar y Dirwedd (LVIA) yn canolbwyntio ar ardal y chwarel a'r tomenni rwbel i'r dwyrain o'r chwarel, sy'n ffurfio nodwedd tirffurf nenlen fawr yn y golygfeydd o Flaenau Ffestiniog. Mae'r tomenni rwbel a'r llwyfan o dir a ddefnyddir ar gyfer safle'r peiriannau presennol i'r dwyrain o'r chwarel yn dylanwadu yn weledol ar PCE. Nid yw'r cynllun adfer a gymeradwywyd yn rhoi unrhyw wybodaeth am sut y byddai'r ardal hon yn cael ei hadfer ar ôl cael gwared â'r adeiladau.

Mae'r bryniau yn yr ardal hon yn dir Mynediad Agored. Mae'r ffordd fynediad o Lan Ffestiniog i'r chwarel bellach yn cael ei dangos fel hawl tramwy ar fapiau OS. Gall cerddwyr weld y Bwlch fel man croesi defnyddiol wrth deithio rhwng gogledd a de Eryri. Mae'r cyhoedd (derbynyddion gweledol a synhwyraidd) yn debygol iawn o ymweld â'r rhan hon o Eryri.

Effeithiau'r cynllun.

O'n dadansoddiad, mae yna effeithiau andwyol presennol ar gymeriad, amwynder gweledol a rhinweddau arbennig PCE:

• Mae sŵn gweithredol yn effeithio ar dawelwch, o symudiadau loriau, prosesu a chwythu'r graig.

• Effeithiau gweledol tomenni rwbel llechi, traciau mynediad, arwynebau chwarelyddol a safle'r peiriannau mewn tirwedd ucheldir anghysbell a gwyllt gyda rhinweddau harddwch naturiol cryf (garwder, tir orchudd naturiol helaeth, tynnu o'r anheddiad) fel y dangosir yn ffotograffau asesiad gweledol SLR o safbwynt 4, 5 a 6.

Effeithiau ar dawelwch a aseswyd
Mae'r effeithiau ar dawelwch wedi cael eu hasesu mewn dau adroddiad – adran 6 tirwedd a gweledol SLR sy'n ystyried yr effeithiau ansoddol ar ganfyddiadau'r cyhoedd o'r ansawdd arbennig hwn; ac adran sŵn a dirgryniad SLR 10, sy'n ystyried effaith feintiol sŵn.

SLR Adran 6 - Tirwedd a gweledol:
Mae'r casgliadau asesu yn adran 6.77 yn datgan *"The effects on the landscape tranquillity from the plant site is considered greater due to its industrial character, prominence, audible noise levels and presence wholly within a tranquil area. The need to use lighting within the winter for safety purposes would add to the level of disturbance. Thus, resulting in an existing effect level of 'Present and intrusive'. The effects on tranquillity for both elements would be removed at the end of the proposed extended approx. see resulting in an enhancement to the current levels of tranquillity in Cwm Teigl and the SNP east of the site."*

Mae CNC yn cytuno fod yr effeithiau ar dawelwch yn debygol o fod yn 'bresennol ac ymwthiol'. Byddai hyn yn effeithio ar Gwm Teigl ac ymyl y Migneint o fewn PCE. Rydym yn ystyried bod graddfa'r effaith yn 'bresennol ac ymwthiol' yn effaith sylweddol, o ystyried gofynion polisi cadwraeth a gwella tirweddau dynodedig.

Sŵn a dirgryniad, adran 10:
Mae'r adroddiad yn cynnwys asesiad o lefelau sŵn y safle o 3 lleoliad ar hyd llwybr troed 54. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r pwyntiau asesu o fewn y Parc Cenedlaethol. Felly, nid yw'r asesiad a chasgliadau'r adroddiad yn rhoi llawer o dystiolaeth berthnasol o effeithiau'r datblygiad ar dawelwch nac arwyddocâd yr effeithiau hynny.

Crynodeb a chasgliad
Byddai effeithiau andwyol ar lonyddwch a chymeriad Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau, am 26 mlynedd hyd at 2048 a byddai'r cynllun adfer yn cael ei ohirio. Nid yw hyn yn cefnogi dibenion dynodiad PCC11 a Pholisi Datblygu 1 PCE: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1). Er hynny, mae lle i wella'r cynllun adfer yn ardal bresennol y peiriannau er budd cymeriad Cwm Teigl. Felly, rydym yn cynghori y dylid ailedrych ar y cynllun adfer i helpu gwrthbwyso'r effeithiau a aseswyd sy'n gysylltiedig â'r estyniad amser. Felly, cynghorwn y dylai'r cynllun adfer edrych ar fynd i'r afael â'r canlynol:
• Lleihau graddfa, ongl ac unffurfiaeth ymylon a phroffiliau y tomenni rwbel sydd o gwmpas ac o dan safle'r peiriannau.
• Gwella siâp y tirffurf fel ei fod yn adleisio'r cribau naturiol, brigiadau creigiog a'r llinellau gweledol yn well.
• Dylunio'r cynllun adfer gan ddefnyddio golygfannau Asesiad

Effaith Weledol y Dirwedd (LVIA).

Gallwn roi cyngor pellach i'r ymgeisydd ar fynd i'r afael â'r pwyntiau uchod, a byddem yn croesawu unrhyw drafodaethau pe bai hynny'n fuddiol.

Safleoedd Gwarchodedig
Mae'r safle tua 700 metr o Ardal Gadwraeth Arbennig Migneint-Arenig-Dduallt (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Rydym wedi adolygu asesiad eich Awdurdod (Emily Meilleur, 5/4/2022) dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (h.y. Asesiad Priodol) ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwn gan na fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar y safleoedd hyn.

Bioddiogelwch
Nodwn y bydd plannu coed/llwyni fel rhan o'r cynllun adfer gan ddefnyddio planhigion o darddiad lleol. Fodd bynnag, o ystyried natur y gwaith a'r gwaith adfer arfaethedig (e.e. defnydd o beli hadau) rydym yn argymell paratoi Asesiad Risg Bioddiogelwch. Rydym yn cytuno â'ch ymgynghorydd ecolegol y dylid monitro rhywogaethau estron ymledol ynghyd â gweithredu mesurau bioddiogelwch ar gyfer rheoli, symud neu reoli rhywogaethau ymledol yn y tymor hir lle bo angen.

Rhywogaethau wedi eu Gwarchod

Atodlen 1 adar

Mae'r Boda Tinwyn, Y Cudyll Bach a'r Hebog Tramor yn adar Atodlen 1 a warchodir dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i newidiwyd). Mae'r ymgeisydd wedi cynnig mesurau lliniaru i rywogaethau a warchodir yn 7.98 a 7.99 o'r Datganiad Amgylcheddol. Rydym yn cytuno â'ch ymgynghorydd ecolegol sydd wedi argymell bod y mesurau hyn yn amod i unrhyw ganiatâd. Nid oes unrhyw faterion rhywogaethau eraill a warchodir o ran ymestyn y cyfnod amser. Fodd bynnag, gallai hyn newid yn ystod y cyfnod ymestyn o 26 mlynedd y gofynnwyd amdano. Felly, rydym yn cynghori bod adolygiadau ecolegol cyfnodol (gan gynnwys rhywogaethau ymledol) yn cael eu cynnal a bod y wybodaeth ddiweddaraf hon yn cael ei defnyddio i lywio unrhyw waith chwarela ac adferiad/tirlunio dilynol.

Dŵr daear
Yn flaenorol, gwnaethom ofyn am fanylion am ddad-ddyfrio’r safle (C19/0461/03/SO, Mehefin 2019). O'r wybodaeth a gyflwynwyd, rydym yn deall na fydd unrhyw waith i dynnu dŵr yn digwydd ar y safle. Rydym yn nodi'r defnydd arfaethedig neu barhaus o fesurau atal llygredd ar y safle gan nodi'r canllawiau arfer da ar gyfer gweithgareddau penodol. Ar y cyfan, nid oes gennym unrhyw bryderon ar yr amod nad yw'r safle'n dad-ddyfrio ac yn parhau gyda'r canllawiau arfer dda i atal llygredd. Er hynny, dylai'r ymgeiswyr nodi ein cyngor ynghylch rheoli dŵr, fel yr isod.

<u>Materion Eraill</u>
Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Ymgynghorol Datblygu Cynllunio: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddiannau eraill.

Cynghorwn yr ymgeisydd, yn ogystal â chael caniatâd cynllunio, mai ei gyfrifoldeb yw sicrhau ei fod yn cael pob hawlen / caniatâd / trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

Dŵr Cymru: Dim Ymateb

Uned Gwarchod y Cyhoedd: <u>Derbyniwyd ymateb ar 07/05/2024:</u>

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) yn argymell ardal glustogi sy'n isafswm o 100 metr ar gyfer tywod a graean rhwng ardaloedd gweithredol pwll (nid ffin y cais) ac eiddo sensitif. Bydd ymestyn y Chwarel yn cydymffurfio â'r parth clustogi.

Mae Pennod 10 'Sŵn a Dirgryniad' y Datganiad Amgylcheddol (cyf SLR Cyf: 403.06559.00027, Rhagfyr 2021) wedi darparu cyfrifiadau o'r lefelau sŵn a ragwelir mewn 3 lleoliad ar Lwybr Troed 54 o'r estyniad arfaethedig mewn cymhariaeth â chanllawiau NCTM 1, gan nodi y bydd defnyddwyr y llwybr troed yn rhai dros dro, ystyrir bod terfyn uchaf o 55dB(A) yn dderbyniol. Ac eithrio gyda chytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau, ni fydd allyriadau sŵn o'r gweithrediadau a wneir ar y safle (ac eithrio gweithrediadau dros dro) yn fwy na'r lefelau sŵn canlynol yn dB LAeq, 1 awr ar dderbynyddion sensitif i sŵn (NSR), pan gânt eu mesur ar uchder o 1.5 metr uwchben y ddaear ac mewn amodau maes rhydd:

• Pan fydd lefel y sŵn cefndir yn fwy na 45dB (A) yn NSR: Uchafswm terfyn sŵn yn ystod y dydd o 55dB (A)

• Lle mae lefel y sŵn cefndir yn llai na 45dB (A) yn NSR: Ni ddylai terfynau sŵn fod yn fwy na 10dB (A) uchod.

• Cyfyngiadau sŵn yn Lleoliad 1, 2 a 55dB (A), 56.2 dB (A) a 49.9 dB (A), yn y drefn honno

• Yn ystod gweithrediadau dros dro a thymor byr: Gall lefelau uwch fod yn rhesymol ond ni ddylent fod yn fwy na 67dB (A) am gyfnodau o hyd at 8 wythnos y flwyddyn mewn eiddo sy'n sensitif i sŵn, yn seiliedig ar ganllawiau NCTM 1. Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o'r dyddiadau y mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd a bydd ar gael i'r Awdurdod Cynllunio ar gais.

Uned Bioamrywiaeth: <u>Derbyniwyd yr ymateb ar 05/04/2022:</u>

Mae'r ymgeisydd wedi darparu AEA yn dilyn ymgynghoriad yn 2019

ac ymatebion i farn gwmpasu C19/0461/03/SO ar gyfer "parhad arfaethedig o waith chwarelyddol yn chwarel Cwt y Bugail y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2022", y gwnes sylwadau arno (memo dyddiedig 29 Mai 2019), yn dilyn fy ymweliad â'r chwarel gydag ecolegydd yr ymgeisydd.

Y bwriad ar gyfer y chwarel

Dywed yr ymgeisydd: "Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer parhau â gweithrediadau cloddio llechi, ynghyd â gwaredu gwastraff mwynau a gorlwytho o fewn y gweithfeydd chwarel y tu hwnt i'r dyddiad gorffen presennol ar 31 Rhagfyr 2022 (gydag amod 2 o ganiatâd cynllunio cyf. 5/59/500 dyddiedig 12 Medi 2005). Ni fyddai'r cynigion yn ceisio ymestyn naill ai'r gweithfeydd llechi na'r tomenni cysylltiedig y tu hwnt i'r ôl troed cymeradwy presennol a byddai'r gweithrediadau yn parhau ar yr un lefel o ddwyster â'r presennol. Ar ben hynny, byddai pob gweithrediad tipio yn cael ei wneud o fewn y domen weithredol bresennol ar ochr orllewinol y chwarel neu o fewn gwagle'r chwarel.

Yn hyn o beth byddai'r chwarel yn parhau i ddatblygu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd dan Ganiatâd Cynllunio 5/59/500, yn arbennig Lluniadau M13/04 i 06." Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn cynnwys chwarela tir newydd a arferai fod heb ei chwarela (gweler isod – wedi'i gylchu mewn melyn) ger Chwarel y North Pole.

Cynefinoedd

Mae'r awyrluniau'n dangos bod y rhan fwyaf o'r safle o fewn ffin y bwriad (llinell goch) yn domenni llechi heb lawer o lystyfiant, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r tir o fewn ffin y chwarel yn dir moel. Fodd bynnag, y tir i'r gorllewin o Chwarel y North Pole, gyda chylch melyn, yw'r glaswelltir ucheldirol, rhostir a chors gyda brigiadau creigiau ac mae'n ardal o werth bioamrywiaeth uchel. Ni wnaeth yr EcIA gynnal arolwg cynefin na llystyfiant yn yr ardal hon.

Asesiad Effaith Amgylcheddol

Mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Amgylcheddol (DA), sy'n ymdrin ag ecoleg.

Asesiad Effaith Ecolegol.

Mae'r Asesiad Effaith Ecolegol (EcIA) wedi ymdrin â phob agwedd berthnasol ar ecoleg (safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig, rhywogaethau o arwyddocâd, cynefinoedd ac ati, ac mae'n cynnwys adroddiad i lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, fodd bynnag, nid yw wedi cynnwys arolwg llystyfiant o dir heb ei chwarela sydd o fewn y bwriad hwn.

Safleoedd Bywyd Gwyllt

Mae safle'r chwarel o fewn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol (1415 Chwarel Lechi Graig-ddu) ac wedi'i amgylchynu gan ddau Safle Bywyd Gwyllt arall (1402 Manod Mawr a 1401 Moel Penamnen). Mae'r ddau Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol o amgylch y chwarel yn

ardaloedd o gynefinoedd ucheldirol o rostir, corsydd, glaswelltir a chreigiau, mae'r cynefinoedd hyn i gyd o werth bioamrywiaeth uchel ac fe'u rhestrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016, gan Lywodraeth Cymru fel cynefin o brif bwysigrwydd. Mae'r ECIA yn dod i'r casgliad: "*Five candidate LWS are within or adjacent to the Site, but as the candidate LWS were recognized after the quarry was created and whilst it was operational, the continued presence of the quarry is not considered to be a significant impact on the important features or the criteria on which the candidate site selection was based.*" Fodd bynnag, mae'r estyniad amser arfaethedig i waith y chwarel yn cynnwys chwarela o fewn Safle Bywyd Gwyllt Lleol 1401 Moel Penamnen. Byddai hyn yn arwain at dir yn cael ei gymryd sydd y tu allan i weithle presennol y chwarel a cholli cynefinoedd ucheldirol. Rwy'n amcangyfrif colli arwynebedd 4379 metr sgwâr o dir ychydig o dan hanner hectar (0.5ha). Nid yw'r EcIA yn cyfeirio at y golled hon.

Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt yn cael rhywfaint o ddiogelwch o dan y polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn:

Polisi Cynllunio a Safleoedd Bywyd Gwyllt - POLISI AMG 5 YN Y CDLl: CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL

Dylai cynigion warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol trwy:

a. Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol drwy leoli datblygiadau yn sensitif

b. Ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, cerrig sarn, coed, gwrychoedd, coedlannau a chyrsiau dŵr.

Gwrthodir cynnig sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol oni bai gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd: -

1. Nad oes yno safle amgen arall ar gyfer y datblygiad.

2. Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur leol;

3. Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.

Ble fo'n angenrheidiol, dylid cynnwys gyda'r cais cynllunio Asesiad Ecolegol sydd yn nodi'r materion bioamrywiaeth lleol perthnasol.

POLISI AMG 6: GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL Gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfeydd Natur Leol (GNLl), Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG) 1 neu safleoedd daearegol/geomorffaidd pwysig rhanbarthol (RIGS), oni bai fod modd profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd ar gyfer y datblygiad, ac nad oes yna safle arall addas a fyddai'n osgoi cael

effaith andwyol ar safleoedd o werth cadwraeth natur leol neu bwysigrwydd daearegol lleol. Pan ganiateir datblygiad, bydd angen sicrhau bod yna fesurau lliniaru priodol mewn lle. Fe fydd yn bosibl defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth a daearegol y safle.

Mae'r ardal o dir fydd yn cael ei gynnwys gyda'r Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol yn gyfran fach o'r Safle Bywyd Gwyllt Lleol ac felly nid yw'n golled sylweddol, fodd bynnag, argymhellaf y dylid lliniaru ar gyfer y SBGLl a cholli cynefinoedd trwy ymarfer gwaith a'r cynllun adfer.

<u>Mawn</u>

Amlygwyd yr ardaloedd mawn gyda llinell felen, byddai'r bwriad hwn sy'n cynnwys chwarela y tu allan i weithfeydd presennol y chwarel a byddai poced fach o fawn yn cael ei cholli, a leolir ar y ffin ger Chwarel y North Pole, os caiff cynllun y chwarel ei weithredu'n llawn. Mae mawn yn bridd sy'n uchel iawn mewn carbon. Ym Mholisi Cynllunio Cymru (paragraff 6.4.3) mae'n nodi bod gan y system gynllunio rôl i'w chwarae wrth ddiogelu bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol a'r cydrannau sy'n sail iddynt fel priddoedd gan gynnwys mawn. Er bod colli mawn yn gyfran fach o'r dirwedd gyfagos, rhaid darparu camau lliniaru, ac rwy'n argymell rhaglen o greu cynefinoedd.

<u>Rhywogaethau Gwarchodedig (ystlumod, dyfrgwn ac ati)</u>

Yn dilyn fy ymweliad â'r chwarel gydag Ecolegydd SLR yn 2019, gallaf gadarnhau nad oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch ystlumod ar gyfer y bwriad hwn am estyniad amser. Nid yw'r gwaith parhaus ddim yn newid rhannau tanddaearol y chwarel, ac felly ni fydd yn effeithio ar ystlumod ac mae arolwg ystlumod yn ddiangen.

<u>Adar magu</u>

Mae'n debygol fod adar yn nythu naill ai yn y chwarel neu yng nghyffiniau'r chwarel fel yr ehedydd, corhedydd y waun ac mae cofnodion hefyd o Fwyalchen y Mynydd. Gall fod adar yn nythu ar y clogwyni o fewn y chwarel fel y gigfran, y frân goesgoch, a'r hebog tramor.

Dengys Cofnod bod cofnod diweddar o Fwyalchen y Mynydd ychydig y tu allan i'r chwarel, mae'r EcIA yn nodi nad oes cofnod bridio na nythu wedi'i gadarnhau i Fwyalchen y Mynydd, er bod y cynefin o amgylch y chwarel yn addas ar gyfer bridio i Fwyalchen y Mynydd. Mae'r EcIA yn cynnig mesurau lliniaru (isod) ar gyfer adar sy'n nythu o dan adran 7, ac ystyriaf fod y rhain yn dderbyniol, ac rwy'n argymell eu bod yn amod cynllunio:

*“7.98 The nests, eggs and young of even common species of wild bird are protected from deliberate damage during the breeding season (March to August inclusive7) under Section 1 of the Wildlife and Countryside Act 1981 (as amended).*

*• Vegetation will be removed outside of the breeding season;*

*• Previously stripped, quarried or tipped areas that have been inactive would only brought back into use (i.e., regraded, overtipped or similar) outside of the breeding season;*

*• 7.99 If this is not possible, a suitably experienced ecologist will undertake a search of vegetation/the area affected immediately prior to work, so that breeding sites can be identified, and their clearance delayed until any young have fledged."*

Adferiad

Mae pennod 3 o'r DA (Datblygu a Dewisiadau Eraill) yn cyfeirio at adfer:

*"3.27 The proposals do not seek to amend the restoration scheme per se. That said, as a consequence of the proposals, the timescale by when the quarry workings would be restored is extended (to allow for the continued mineral extraction).*

*3.28 Restoration proposals were put forward as part of the previous planning application (see Approved Drawings M13/04, M13/05 and M13/06 in Appendix 2/2).*
*3.29 Notwithstanding this, the applicant's approach to restoration of their operations, as pioneered a their Penrhyn Quarry, is as follows:*
*• whilst there have been attempts made to retain soils for re-use (currently stored within old Manod Quarry), it is considered best that those soils remain in place and are allowed to continue to revegetate. In any event, there is inadequate soil on site with which to top dress final surfaces. Importing of soil for this purpose is not considered appropriate given the location and context of the quarry.*
*• where possible, a crag face as tall as practicable would be retained or created for use by cliff nesting birds such as peregrine. The steepest restored slopes would comprise areas of blocky waste, akin to scree slopes which occur naturally on the local hillslopes. Shallower slopes would be finished with smaller material from overburden/interburden that would more readily revegetate via natural colonisation and the measures described below. 1 It is noted that the condition 16 is at odds with condition 2 which requires all operations to have ceased by 31 December 2022.*
*• seed balling would be undertaken across all slopes (as occurs at Penrhyn Quarry). This involves the manufacturing of balls of compost with pre-germinated seeds which are then cast down the tips where they find their own lodging point on the slope. Over time, the seeds develop within their pocket of compost. Trees and shrub planting will be limited to lower slopes, convex slopes and along water courses, so as to appear a natural part of the landscape. Trees and shrubs would be placed in hessian sacks containing 1.5 litres of compost and buried in place. All planting stock would be of local provenance, collected from local seed sources, propagated and grown at the purpose-built nursery at Penrhyn Quarry.*
*3.30 Finally, an aftercare scheme would be submitted prior to the undertaking of restoration works.*

Rwy'n argymell bod cynllun adfer manylach yn cael ei ddarparu. Dylai hwn gael ardal lle mae gwaith chwarela wedi ei gwblhau a gellir ei defnyddio ar gyfer creu cynefinoedd, lle gellir gosod

priddoedd fel mawn a chaniatáu i blanhigion dyfu.

Safleoedd Dynodedig Gwarchodedig (ACA ac AGA)

Mae'r chwarel 400 medr tua'r gorllewin o'r Migneint sy'n safle dynodedig:

• ACA Migneint-Arenig-Dduallt

• AGA Migneint-Arenig-Dduallt

• SoDdGA Migneint-Arenig-Dduallt Parth Dylanwad

Y cam cyntaf yn y broses sgrinio yw nodi safleoedd ACA ac AGA o fewn parth dylanwad y prosiect. Mae tair ACA neu AGA o fewn 10km;

- ACA ac AGA Migneint-Arenig-Dduallt- 460m i'r dwyrain;

• ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd - 2.9km i'r de-orllewin

- ACA ac AGA Eryri - 9.9km i'r gogledd orllewin.

I ddibenion y sgrinio hwn, mae'r parth dylanwad posibl ar gyfer y datblygiad arfaethedig wedi'i gyfyngu i ACA ac AGA Migneint-Arenig-Dduallt. Nid yw pob safle Ewropeaidd arall yn debygol o gael ei effeithio o ystyried cyd-destun y datblygiad, y pellter rhyngddynt a safle'r prosiect a'r diffyg cysylltedd trwy lwybrau dŵr wyneb a/neu nodweddion tirwedd.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) yn atgyfnerthu Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 gyda diwygiadau dilynol. Mae'r Rheoliadau yn trawsnewid Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC, ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna gwyllt a fflora (Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE), yn gyfraith genedlaethol ac o dan y ddeddfwriaeth hon mae angen 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' lle rhagwelir effaith arwyddocaol debygol ar y safle Ewropeaidd.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020; mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i warchod safleoedd Ewropeaidd wedi cael ei diweddaru. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygiwyd) (Ymadael â'r UE) 2019 i bob pwrpas yn cario drosodd ac yn trosglwyddo cyfraith yr UE ar y mater hwn i gyfraith ddomestig y DU.

Mae rheoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod cymwys (megis Cyngor Gwynedd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio) wneud Asesiad Priodol o'r goblygiadau ar gyfer safle neu safleoedd

Ewropeaidd o ystyried amcanion cadwraeth safle, cyn penderfynu ymgymryd â, neu roi caniatâd, hawl neu awdurdodiad arall ar gyfer, cynllun neu brosiect sydd: a. yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill; b. nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle hwnnw neu'n angenrheidiol iddo.

Adroddiad ARhC

ACA ac AGA Migneint-Arenig-Dduallt. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Rheoliadau Cynefinoedd a gynhyrchwyd gan SLR: CHWAREL CWT Y BUGAIL ESTYNIAD AMSER ARFAETHEDIG Atodiad 7/4: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - Gwaith sgrinio wedi ei baratoi ar gyfer: Breedon Trading Ltd, SLR Cyfeirnod: 406.06559.00022 Rhagfyr 2021

Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o'r tebygolrwydd o gael effeithiau sylweddol ar ACA ac AGA Migneint – Arenig – Dduallt o'r estyniad amser arfaethedig i weithrediadau yn Chwarel Cwt y Bugail. Ar y pwynt agosaf mae safle'r chwarel a'r cyfleusterau prosesu tua 450m o ffin y safleoedd Ewropeaidd. Mae'r adroddiad ARhC yn gynhwysfawr ac yn drylwyr ac wedi'i wneud i safon dda.

ACA Migneint-Arenig-Dduallt

Dynodwyd ACA Migneint-Arenig-Dduallt yn bennaf oherwydd cynefinoedd: rhostiroedd sych Ewropeaidd a Mignenni; gyda chynefinoedd cymwys ychwanegol: rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd; llynnoedd a phyllau dystroffig; llynnoedd *oligotrophic* i lynnoedd mesotroffig; a hen goedwigoedd derw mes digoes.

AGA Migneint-Arenig-Dduallt

Mae AGA Migneint-Arenig-Dduallt yn safle ucheldirol sydd wedi'i ddynodi ar gyfer rhywogaethau adar Atodiad 1

• Y Boda Tinwyn Circus cyaneus;

• Y Cudyll Bach Falco columbarius; a

• Yr Hebog Tramor Falco peregrinius

Casgliad yr ARhC

Mae'r adroddiad ARhC yn cloi gyda'r canlynol ac rwyf yn cytuno â hwy: *"It is concluded since that there is low risk of airborne dusts, that deposition levels would be well below 1000mg/m2/day and the neutral chemical composition of the dust (i.e. dust arising from a similar geology as the receiving habitats and dust that is not nutrient or mineral rich), there is no likely significant effect on any qualifying habitats within Migneint-Arenig -Dduallt SAC as a result of continued quarrying activity. A precautionary approach has been taken in respect of possible disturbance to SPA interest features (merlin, peregrine, hen harrier) potentially using habitats adjacent to*

*the site, although there is no evidence that these areas are favoured by any of the interest features. Due to topography and intervening vegetation, plus habituation to existing disturbance, no likely significant effects are anticipated in relation to disturbance. The potential for in combination effects during construction has been considered. However, no plans or projects have been identified in the vicinity of the site that could potentially give rise to cumulative impacts. No likely significant effects are therefore identified as a result of the continued operation of the quarry, either alone or in-combination with other plans or projects."*

APCE

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ffinio gyda'r chwarel yn y gornel ogledd-ddwyreiniol.

INNS

Ni wnaeth yr Adroddiad Ecoleg gofnodi unrhyw rywogaethau ymledol anfrodorol, ond yn aml mae gan chwareli lawer o blanhigion anfrodorol, yn enwedig Coed Mêl (*Buddleia*) a Rhododendron, felly rwy'n argymell monitro parhaus ar gyfer rhywogaethau anfrodorol a'r mesurau a gymerwyd i'w rheoli a'u difa.

Gwella Bioamrywiaeth

Dan ran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (2016) mae gan bob corff cyhoeddus fel Cyngor Gwynedd ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â sicrhau gwytnwch yr ecosystem. Argymhellaf fod yr ymgeisydd yn cyflwyno cynllun gwella bioamrywiaeth.

Crynodeb

• Mae'r ymgeisydd wedi darparu Asesiad Effaith Ecolegol ac adroddiad ARhC.

• Mae ARhC wedi'i gynnal a daeth i'r casgliad nad yw'r cynnig datblygu hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000.

• Bydd gweithredu'r cynllun chwarel yn llawn yn arwain at golli 0.5ha o gynefinoedd ucheldirol sy'n cynnwys glaswelltir asid, corsydd, rhostir a chraig, ger Chwarel y North Pole. Mae'r cynefinoedd hyn o werth bioamrywiaeth uchel. Mae'r ardal hon o fewn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol. Mae polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer diogelu Safleoedd Bywyd Gwyllt a bioamrywiaeth. Er bod cyfran y tir sy'n cael ei golli o'r Safle Bywyd Gwyllt Lleol yn fach, rhaid darparu camau lliniaru drwy greu cynefinoedd, gellid gweithredu hyn drwy gynllun adfer.

• Bydd gweithredu'r cynllun chwarel yn llawn yn arwain at golli ychydig bach o fawn yn yr ardal ger Chwarel y North Pole. Mae mawn yn bridd sy'n llawn carbon.

• Mae'n debygol y bydd gwaith y chwarel yn achosi rhywfaint o aflonyddwch i adar fel Mwyalchen y Mynydd, ond gall mesurau lliniaru leihau'r effeithiau ar adar.

• Mae angen cynllun adfer manylach sy'n cynnwys creu cynefinoedd

o fewn y chwarel.

• Rwy'n argymell monitro o fewn y chwarel ar gyfer rhywogaethau planhigion anfrodorol a bod cynllun ar gyfer eu dileu tra bo'r chwarel yn dal yn weithredol a thra bod gwaith adfer yn digwydd.

• Rwy'n argymell bod amodau cynllunio yn cael eu cynnwys ar gyfer: monitro a dileu planhigion anfrodorol; mesurau i amddiffyn adar sy'n nythu; creu cynefinoedd; yn ogystal â'r holl fesurau lliniaru o fewn yr EcIA fel amodau cynllunio.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i barhad y chwarel weithredol, mae gen i rai pryderon ynglŷn â'r estyniad i ardaloedd oedd heb eu chwarelu o'r blaen a cholli cynefin ucheldirol o ganlyniad i hyn. Rwy'n argymell bod mesurau lliniaru yn cael eu darparu a chynllun adfer manylach.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Derbyniwyd yr ail ymateb ar 13/06/2023:

Diolch am ein diweddaru ynghylch y cais yma; ymddiheuriadau am yr oedi cyn ateb. Rwyf wedi darllen adroddiad Cotswold Archaeology am gyfleuster storio o'r Ail Ryfel Byd sydd ar y safle. Mae hwn yn adroddiad ardderchog a dylid ei adneuo nawr gyda Chofnod Amgylchedd Hanesyddol Gwynedd. Fodd bynnag, nid wyf yn gallu rhoi sylwadau ar y cais cynllunio hyd yma. Rwyf yn dal i ddisgwyl am asesiad diwygiedig o effeithiau posibl ar agweddau eraill o'r amgylchedd hanesyddol, yn unol â'm sylwadau ar 4 Ebrill 2022. Yn ogystal, rwy'n deall y gallai fod adroddiadau technegol anarcheolegol pellach i'w cyflwyno, a allai effeithio ar faterion archeolegol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech barhau i'n hysbysu pan fydd dogfennau newydd yn cael eu cyflwyno, fel y gallwn gynghori fel sy'n briodol heb oedi gormodol.

Yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd ar 04/04/2022:

Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais cynllunio uchod. Rwyf wedi adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd sy'n cynnwys Datganiad Amgylcheddol, ac ysgrifennaf i roi gwybod i chi nad wyf yn gallu rhoi barn ar y cais ar hyn o bryd.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys pennod ar Dreftadaeth Ddiwylliannol. Yn ein sylwadau sgopio ar 17 Mehefin 2019, gwnaethom hysbysu y dylai hyn gynnwys asesiad pen desg archeolegol safonol, er mwyn darparu cyfrif cyfredol o archaeoleg sydd wedi goroesi ar y safle, er mwyn seilio argymhellion rheoli a lliniaru yn y dyfodol. Nid yw'r bennod a gyflwynwyd yn cyflawni'r nod hwn ac nid yw'n cyd-fynd â naill ai'r canllawiau proffesiynol perthnasol na methodoleg SLR Consulting ei hun fel y nodir yn Atodiad 9.1.

Mae'r chwarel yn adnabyddus ac wedi bod yn destun astudiaeth archeolegol flaenorol, yn ogystal ag erthyglau poblogaidd, a

diddordeb gan haneswyr lleol a selogion urbex. O'r herwydd, nid oedd disgwyl i'r bennod ddarparu cefndir cynhwysfawr, ond dylai fod wedi defnyddio'r wybodaeth bresennol hon i ddarparu trosolwg hanesyddol ac i dynnu manylion amlwg fel sail ar gyfer yr asesiad cyfredol. Roedd disgwyl i'r asesiad ganolbwyntio'n arbennig ar archaeoleg ddiwydiannol ac, fel yr amlygwyd gan Cadw a barn sgopio'r Cyngor, y defnydd cenedlaethol pwysig o'r safle yn ystod yr Ail Ryfel Byd i storio celf ar gyfer yr Oriel Genedlaethol. Er bod y ddwy ffaith yn cael eu crybwyll wrth basio, nid yw'r bennod yn darparu asesiad o'u harwyddocâd nac effaith y cynigion arnynt.

Mae'r data sylfaenol fel y'i cyflwynir yn anghyflawn ac mewn mannau yn anghywir. Mae'r nifer o gofnodion yn ardal yr astudiaeth ar Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ar goll, sy'n ymwneud yn bennaf â hanes chwarela, ac sy'n cynnwys gwerth artistig cyfoes y safle gan yr artist enwog o dirweddau diwydiannol, Falcon Hildred. Nid yw lleoliad y safle o fewn Tirwedd Gofrestredig Blaenau Ffestiniog o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yn cael ei ystyried, na'r ffaith bod y safle'n cynnwys rhan o Dirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru (PRN 59317, inclein sy'n gysylltiedig â Chwarel Craig Ddu, yn terfynu yng nghornel de-orllewinol yr ardal tipio caniataol). Dylai'r bennod fod wedi'i chefnogi gan gopïau o fapiau hanesyddol perthnasol, wedi'u croesgyfeirio fel y bo'n briodol i nodweddion a welwyd ar y safle neu yr ystyrir eu bod yn goroesi islaw gweithgarwch gweladwy. Yn yr un modd, nid oes digon o fanylion o arsylwadau safle wedi eu darparu, heb unrhyw arwydd clir o beth yw'r gweddillion a nodwyd, lle maent wedi'u lleoli, ac a ydynt yn cyfateb i unrhyw gofnodion presennol neu nodweddion sydd wedi'u mapio, ond heb eu dyrannu.

Oherwydd yr uchod, byddem yn cynghori nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i alluogi'r awdurdod lleol i asesu goblygiadau'r cais am yr amgylchedd hanesyddol a thrwy hynny wneud penderfyniad cynllunio gwybodus.

Byddem yn argymell y dylid gwrthod neu ohirio'r cais.

Tra'n disgwyl cyflwyniad pennod Treftadaeth Ddiwylliannol wedi'i hadolygu'n gynhwysfawr i fynd i'r afael â'r sylwadau uchod. Dylid rhoi pwyslais penodol ar gyflwr ac arwyddocâd y safle diwydiannol sy'n bodoli.

Y strwythurau a'r gweithfeydd tanddaearol a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer storio celf, gydag asesiad manwl priodol o'r effeithiau ar elfennau unigol.

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru:

<u>Derbyniwyd yr ail ymateb ar 14/02/2024:</u>

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad dyddiedig 25/02/2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod. Ymhellach i'ch cyngor dilynol ar 13/02/2024 gallaf gynghori bod Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A470 yn tynnu ei gyfarwyddyd blaenorol yn ôl ac nad

yw'n rhoi cyfarwyddyd pellach mewn perthynas â'r cais hwn.

Yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd ar 04/05/2022:

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 25 Chwefror 2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod, a hysbysaf fod Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A470 yn cyfarwyddo na ddylid rhoi caniatâd cynllunio am y tro gan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ddigonol i allu penderfynu ar y cais.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i gefnogi'r cais hwn neu ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion a ganlyn;

1) Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu Asesiad Trafnidiaeth ar lefel briodol sy'n dangos yr effaith bosibl y gallai'r bwriad ei gael ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd.

CADW:

Derbyniwyd yr ail ymateb ar 23/02/2024:

Dim gwrthwynebiad, ar yr amod y bydd amodau ynghlwm â'r caniatâd. Cyflwynwyd dwy ddogfen i gefnogi'r cais hwn, Asesiad Treftadaeth a Datganiad o Arwyddocâd mewn perthynas â'r Cyfleuster Storio yn yr Ail Ryfel Byd yn Chwarel Cwt y bugail a baratowyd gan Cotswold Archaeology ac asesiad o'r potensial ar gyfer difrod dirgryniad gyda ffrwydradau i fwynglawdd Manod ac adeiladau Chwarel Cwt-y-bugail a baratowyd gan GWP Consultants. Mae'r ddogfen gyntaf yn rhoi gwybodaeth am y cyfleusterau storio a ddefnyddiwyd gan yr Oriel Genedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'i arwyddocâd. Mae'n amlwg o'r gwaith hwn fod olion y cyfleuster hwn o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Mae'r ail ddogfen yn ystyried effaith debygol dirgryniadau a achosir gan y ffrwydradau y bydd eu hangen i dynnu'r llechi yn ystod gweithrediadau parhaus y chwarel. Daw i'r casgliad nad oes disgwyl i'r dirgryniadau achosi unrhyw ddifrod i weddillion y cyfleuster sydd wedi goroesi ond sylwer y bydd angen cynnal profion ychwanegol cyn bod unrhyw waith yn cael ei wneud yn agos at y safle yma.

Felly, mae digon o wybodaeth wedi cael ei chyflwyno i ni ddod i'r casgliad y gellir gwneud gwaith cloddio heb achosi difrod i'r olion hanesyddol, ond nodwn fod amryw o argymhellion yn cael eu gwneud yn y ddau adroddiad y bydd angen eu gweithredu cyn ac yn ystod y gwaith chwarela. Yr argymhellion hyn yw y dylid ymgymryd â'r canlynol:

- Rhaglen o gofnodi adeiladau (lefel 3 i 4 o ganllawiau *Historic England Understanding Historic Buildings:A Guide to Good Recording Practice*).
- Rhaglen o allgymorth yn esbonio pwysigrwydd y cyfleuster storio hanesyddol, wedi'i ddosbarthu i'r cymunedau lleol a chenedlaethol.
- Cyn defnyddio ffrwydron y tu mewn i 60m o'r cyfleuster storio hanesyddol bydd treialon yn cael eu cynnal fel y gellir canfod y ffurfweddiad gorau sy'n lleihau dirgryniad.
- Ni ddylai cyflymder gronynnau o weithgareddau ffrwydro ar

eu hanterth fod yn fwy na 50mm/s ar gyfer 95% o'r ffrwydradau gorlwytho dros gyfnod o dri mis a ni ddylent fod yn fwy na 60mm/s ar unrhyw adeg.

- Rhaid mesur anterth cyflymder gronynnau ar y pwynt agosaf at safle'r ffrwydrad o fewn yr ardal gysgodol a ddangosir yn Lluniad rhif WCYBG2312-10.

Gellir sicrhau'r gofynion hyn drwy atodi amodau priodol ynghlwm ag unrhyw ganiatâd a roddir i'r cais presennol.

Derbyniwyd yr ymateb cyntaf ar 15/03/2022:

Diolch ichi am eich llythyr yn gwahodd ein sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y cais cynllunio uchod.

Cyngor

Rydym o'r farn nad yw'r cais wedi'i gofnodi'n ddigonol, ac rydym yn argymell bod angen gwybodaeth ychwanegol i alluogi gwneud penderfyniad cytbwys yn erbyn Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol a chanllawiau cysylltiedig. Mae manylion llawn y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen yn cael eu hesbonio yn yr asesiad isod.

Mae'r polisi cenedlaethol a rôl Cadw wrth gynllunio wedi'u nodi yn Atodiad A.

Asesiad

Rhoddir y cyngor hwn mewn ymateb i gais o dan Adran 73 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio 5/59/500 (Ymestyn Chwarel Lechi ac Ail-alinio Ffyrdd Chwarel) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer ennill a gweithio deunydd hyd at 2048 yn Chwarel Cwt y Bugail, Cwm Teigl, Llan Ffestiniog.

Ynghyd â'r cais ceir Datganiad Amgylcheddol y cyflwynwyd barn gwmpasu ar 3 Gorffennaf 2019. Nododd y farn hon fod posibilrwydd y gallai'r chwarela arfaethedig gael effaith ar nodweddion hanesyddol a allai fod o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd defnydd y chwarel i storio rhan o'r Casgliad Celf Cenedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Felly, roedd y farn gwmpasu yn nodi y dylai'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y mae'r Datganiad Amgylcheddol yn seiliedig arno ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu gwybodaeth ar y mater hwn (gweler adran 7.5 Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol y Farn Gwmpasu). Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys pennod (rhif 9) ar Dreftadaeth Ddiwylliannol, ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at ddefnydd y chwarel i storio'r Casgliad Celf Cenedlaethol nac unrhyw ystyriaeth os bydd y chwareli arfaethedig yn effeithio ar strwythurau sy'n gysylltiedig â'r defnydd hwn. O'r herwydd, nid yw'r cais presennol yn darparu digon o wybodaeth i Cadw asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar asedau hanesyddol, o Bwysigrwydd Cenedlaethol o bosibl, sy'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn. O ganlyniad, dylid gofyn i'r ymgeisydd ddarparu mwy o wybodaeth ar y mater hwn, fel yr amlinellir yn y farn gwmpasu Asesiad Effaith Amgylcheddol. Unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi'i derbyn, dylid ail

| | |
| --- | --- |
| | ymgynghori â CADW ar y cais hwn. |
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Derbyniwyd ymateb ar 02/03/2022:<br>Dim sylwadau. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd hysbysiad yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd mewn perthynas â;<br>• Gwrthwynebiad i draffig ychwanegol ddefnyddio'r briffordd gyhoeddus (i fyny Cwm Teigl).<br>• Mae peiriannau mawr yn teithio i fyny i'r chwarel yn hytrach na chael eu cludo ar ôl-gerbydau. Mae hyn yn niweidio wyneb y ffordd.<br>• Mae traffig (y chwarel) yn beryglus ac yn aml yn gyflym.<br>• Nid oes cyfyngiad cyflymder ar y briffordd gyhoeddus.<br>• Dylai traffig gael ei gyfyngu i 20mya.<br>• Dylid cyfyngu traffig i amseroedd penodol yn ystod y dydd gan ddilyn system unffordd yn amodol i hysbysu'r trigolion.<br>• Mae angen mwy o lefydd pasio ar y briffordd.<br>• Ni ddylai trigolion orfod mynd am yn ôl i roi lle i gerbydau mawr fynd heibio.<br>• Ni ddylai priffordd yn y Parc Cenedlaethol gael ei defnyddio ar gyfer traffig chwarel.<br>• Pryder am lygredd mewn afon (heb ei nodi mewn sylwadau ond tybir mai afon Teigl oedd dan sylw). |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae'r safle yn chwarel lechi sefydledig sy'n amodol ar ganiatâd cynllunio a roddwyd yn 2005. Bydd angen asesu unrhyw amrywiad ar yr amod i ymestyn hyd oes gweithrediadau, yn erbyn y newidiadau yn y polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ers rhoi'r caniatâd a'r asesiad cysylltiedig. Ar hyn o bryd, y polisïau cynllunio lleol perthnasol yw Polisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 (CDLl). Mae Polisi PS 22 yn datgan y bydd y cyngor yn cyfrannu at y galw rhanbarthol a lleol parhaus am gyflenwad o fwynau yn unol ag amcanion allweddol datblygu cynaliadwy.

5.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 12 (PCC 12) yn ymgorffori polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau mwynau a amlinellwyd yn flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofyn PCC 12, mae gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynau yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Y prif egwyddorion a nodir yn adran 5.14.2 (Mwynau) PCC yw:

- *Darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelwch a gwaith adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;*
- *Gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;*

- *Lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir gan gloddio am fwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd yr aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; acAdfer y tir i safon uchel fel nad yw'n dirywio i gyflwr diffaith a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt, gan gynnwys ôl-ddefnyddiau buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.*

5.3 Mae PPC 12 yn mynd rhagddo ymhellach i ymhelaethu ar bwysigrwydd echdynnu llechi yn rhan 5.14.24 "Defnyddir llechi ar gyfer toi, i orchuddio adeiladau ac at ddibenion addurniadol, ac ar ffurf powdr a gronynnau at ddibenion arbenigol fel llenwadau ar gyfer cynhyrchion bitwminaidd, neu fel teils o lechi cywasgedig84. Mae llechi Gogledd-orllewin Cymru yn rhai o safon uchel, ac mae llawer ohonynt ar gael... at gynnal cymeriad adeiladau lleol, lle mae defnyddio llechi o fath penodol yn bolisi cynllunio caeth. Mae'n bwysig bod y cyflenwad llechi'n cael ei gynnal, ond wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i warchod tirweddau pwysig."

5.4 Yn y pen draw, gellir gweithio gyda thomenni mwynau yn y mannau lle cânt eu canfod yn unig, a hynny mewn niferoedd dichonadwy yn ddaearegol ac economaidd. Yn yr achos hwn, y bwriad yw ymestyn oes gwaith chwarel lechi sefydledig a fyddai'n parhau i gyflenwi toeau a llechi addurnol o gronfa hysbys o lechi o ansawdd uchel yn hytrach na chwilio am ddeunydd newydd mewn safleoedd eraill.

5.5 Mae Polisi MWYN 3 o'r CDLl hefyd yn berthnasol yn y fan yma a dywed: "Caniateir cynigion datblygu ar gyfer chwilio am fwynau, mwyngloddio neu ymestyn gweithfeydd presennol i gynnal banc tir agregau ardal y Cynllun, neu i ddiwallu'r galw am fwynau eraill os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn:

*1. Nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil;*
*2. Mae yna fyffer addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif;*
*3. Nid oes niwed annerbyniol i sefydlogrwydd a chynhaliaeth tir cyfagos;*
*4. Mae'r datblygiad wedi'i sgrinio a'i dirweddu mewn modd sensitif.*
*5. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac /neu dreftadaeth;*
*6. Nid yw'r cynnig yn sterileiddio neu'n atal gweithio dyddodion mwynau eraill o bwys;*
*7. Nid oes niwed annerbyniol i ddraeniad dŵr daear ac adnoddau dŵr;*
*8. Mae'r cynnig yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddefnydd posib yr adnodd ac y caiff unrhyw wastraff sy'n deillio o'r mwyngloddio ei waredu'n foddhaol;*
*9. Pan fo ffrwydro'n rhan o'r cynnig, mae'r cynnig yn cynnwys cynllun ffrwydro i ddangos y gellir ei reoli i ddiwallu'r anghenion a fanylir arnynt yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau NCTM (Cymru) 1: Agregau, neu unrhyw ddiwygiadau;*
*10. Mae'r bwriad yn cynnwys cynllun ôl-ddefnydd ar gyfer y safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol er mwyn cyflawni hynny yn unol â Pholisi MWYN 9;*
*11. Pan fo'n ymarferol yn economaidd, dylid cludo gwastraff neu gynnyrch mwynau ar y rheilffyrdd neu ar ddŵr;*

5.6 Fel y bydd yn cael ei drafod ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'r estyniad arfaethedig i fywyd gwaith Chwarel Cwt y Bugail yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodir ym Mholisi MWYN 3.

5.7 Yn amodol i ystyriaeth yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 o'r Cynllun Datblygu Lleol gan roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol cyfredol sydd yn PCC 12 a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM 1 (Cymru).

**Mwynderau Gweledol a'r Dirwedd**

5.8 Mae polisïau PCYFF 3, PCYFF 4, MWYN 3 a MWYN 9 o'r CDLl i gyd yn bolisïau perthnasol i'w hystyried o ran effaith weledol a'r dirwedd. Mae arwyddocâd posibl unrhyw dirwedd ac effeithiau gweledol yn cael eu pennu gan gyfuniad o faint y newidiadau a sensitifrwydd lleoliad y dirwedd i newid. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau uniongyrchol i dirwedd safle'r cais nad oes modd ei osgoi oherwydd natur echdynnu mwynau. Fel rhan o'r dogfennau ategol, mae'r ymgeisydd wedi darparu Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVIA) sy'n ystyried sensitifrwydd dynodiadau tirwedd, ardaloedd preswyl a derbynyddion hamdden cyfagos.

5.9 Mae CNC wedi asesu'r dogfennau a gyflwynwyd ac wedi darparu eu dadansoddiad eu hunain o'r effeithiau gweledol. Datgan CNC bod effeithiau andwyol presennol ar gymeriad, amwynder gweledol a rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri sy'n deillio o sŵn gweithredol ac effeithiau gweledol o ddyddodion gwaith mwynau, traciau mynediad/ffyrdd, peiriannau, offer a strwythurau. Prif effaith y cynnig ym marn CNC yw;

- ymestyn gweithrediadau ar y safle a fyddai'n effeithio ar lonyddwch a chymeriad y Parc Cenedlaethol.
- mae cysyniad y gwaith adfer a ganiateir ar gyfer yr ardal lle ceir adeiladau/siediau/ardaloedd stocio yn gymharol niwlog heblaw am gael gwared ar strwythurau a phroffilio'r tir/y domen llechi a fyddai'n gadael tirffurf ymwthiol.

5.10 Mae'r cais a gyflwynwyd yn benodol ar gyfer ymestyn oes y gwaith echdynnu a thipio mwynau fel y caniateir o dan ganiatâd cynllunio 5/59/500 ac nid yw ar gyfer datblygiad mwynau newydd, estyniad ffisegol neu addasiadau i'r ardal waith. Mae'n bwysig nodi, bod y caniatâd cynllunio sydd ar gael, 5/59/500 yn gymharol lac o ran cyfyngiadau ar weithrediadau a allai gael effaith sylweddol ar lonyddwch (h.y., sŵn, ansawdd aer, oriau gweithredol) ac nid yw'r adeiladau/gweithdai/siediau llifio, cyfleusterau staff a meysydd parcio wedi eu cynnwys gan y caniatâd hwn ond o dan nifer o ganiatadau hanesyddol ar wahân.

5.11 Fodd bynnag, mae cytundeb cyfreithiol Adran 106 dyddiedig 12/09/2005 (sy'n gysylltiedig â chaniatâd 5/59/500) yn cwmpasu'r holl dir gweithredol yn y chwarel ac mae'n cynnwys safleoedd gwaith/cynlluniau adfer terfynol ar gyfer yr ardal a gwmpesir gan yr adeiladau/gweithdai cysylltiedig. Felly, ystyrir bod y cysyniad adfer presennol sydd ynghlwm wrth ganiatâd 5/59/500 yn sefyllfa sy'n syrthio'n ôl (*fallback*) o'r hyn a fyddai'n cael ei weithredu (o ran adfer y safle) pe bai gweithrediadau'n dod i ben ar y safle heddiw er gwaethaf pryderon CNC am ei annigonolrwydd.

5.12 O ystyried bod y Cais Adran 73 hwn yn rhoi cyfle i asesu effeithiau gweledol y datblygiad yn erbyn safonau polisi cynllunio presennol, mae lle i gyflawni cynllun adfer gwell trwy amod priodol a allai leihau effaith weledol y safle ar ôl rhoi'r gorau i waith a goresgyn prif bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi PCYFF 4 a MWYN 9 o'r CDLl a'r NCTM 1.

5.13 Heb os, byddai natur y bwriad i ymestyn hyd oes y gweithrediadau yn ymestyn yr effeithiau gweledol presennol yn y tymor canolig ond byddai'n cynnig cyfle i gael cynllun adfer ac ôl-ofal

gwell i leihau effeithiau'r gwaith mwynau ar dderbynyddion tirwedd sensitif ac felly fe'i hystyrir yn dderbyniol yn amodol ar osod amod priodol ar unrhyw ganiatâd newydd.

5.14 Trafodir materion eraill a godwyd gan CNC ynghylch tawelwch sŵn gweithredol, ansawdd aer, dirgryniad yn fanylach mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

5.15 Bydd angen diwygio Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 i adlewyrchu newidiadau unrhyw ganiatâd neu amrywiad newydd i'r amodau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gorfodi'r cynigion adfer ar gyfer y chwarel gyfan, gan gynnwys ardaloedd gweithredol y tu hwnt i'r cais sy'n cael ei ystyried, yn effeithiol. Felly, gyda gosod amodau, ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â pholisïau PCYFF 3, PCYFF 4, MWYN 3 a MWYN 9 y CDLl.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.16 Mae Polisi MWYN 3 y CDLl ar y Cyd yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol cyn belled nad oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig sy'n deillio o hynny.

5.17 Mae NCTM 1 Cymru; Agregau yn cydnabod y ceir gwrthdaro'n aml rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddiau tir eraill, ac felly mae wedi sefydlu'r egwyddor o barthau byffer o amgylch gweithfeydd mwynau presennol sydd â chaniatâd a gweithfeydd arfaethedig. Diben y parth byffer yw gwarchod defnyddiau tir sy'n fwyaf sensitif i effaith gweithfeydd mwynau, drwy sefydlu pellter gwahanu. Mae NCTM 1 hefyd yn argymell y dylid cael pellter o 200 metr o leiaf ar gyfer chwareli creigiau caled, ac y dylai Cynlluniau Datblygu ddangos ffin y parth byffer ar gyfer pob gwaith mwynau.

5.18 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd byffer o amgylch safleoedd echdynnu mwynau, lle mai'r amcan yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol". Diffinnir parth byffer o ymyl allanol yr ardal weithredol, gan gynnwys ffyrdd cludo safle a lagynau. Mae NCTM1 yn argymell pellter sydd yn o leiaf 200 metr ar gyfer gweithrediadau cloddio creigiau caled ac eraill lle mae angen ffrwydro.

5.19 Mae'r eiddo preswyl agosaf i ardaloedd gweithredol y chwarel wedi'u lleoli dros 1km i ffwrdd (ym Methania, Cwm Teigl a Chwm Penmachno yn y drefn honno). O ystyried y pellter gwahanu a'r dystiolaeth i ddangos bod y safle eisoes yn gweithredu heb niwed i amwynder o dan delerau amodau cynllunio a/neu drwyddedau amgylcheddol, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2 a MWYN 3.

5.20 Trafodir materion sy'n ymwneud â sŵn, dirgryniad ac ansawdd aer yn fanylach isod.

**Sŵn a dirgryndod**

5.21 Mae sŵn gweithredol a dirgryniad wedi cael eu hystyried ym Mhennod 10 o'r DA a'r ddogfen ddilynol '*Potential for blast vibration damage to Manod mine and buildings at Cwt y Bugail quarry (GWP consultants*, Rhagfyr 2023)'.

5.22 Fel y nodwyd uchod, nid oes unrhyw eiddo preswyl o fewn 1km i'r chwarel, felly mae'r asesiad wedi canolbwyntio ar dawelwch Hawl Tramwy Cyhoeddus Rhif 54 Ffestiniog (PROW) a Pharc Cenedlaethol Eryri. O ran sŵn, daw'r asesiad i'r casgliad bod arolygon sŵn a gynhaliwyd yn dangos na fydd gweithrediadau o fewn y chwarel yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr yr hawl tramwyo.

5.23 Nid oes unrhyw derfynau ffrwydro yn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu amwynder/tawelwch PROW, fodd bynnag, mae'r asesiad yn argymell y byddai terfyn PPV o

14mm/s (y terfyn mewn perthynas â'r eiddo preswyl) yn lefel dderbyniol ar gyfer amddiffyn amwynder. Yn ogystal, mae hyd cyfnod y ffrwydro yn fach ac yn anaml iawn.

5.24 Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Uned Gwarchod y Cyhoedd yr awdurdod lleol ar gyfer sylwadau ar gynnwys yr asesiad a'r bwriad. Maent yn derbyn casgliad y pwnc asesu sy'n ymwneud â chyflyru mesurau lliniaru addas a bod unrhyw ganiatâd yn ddarostyngedig i'r amod canlynol;

*Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau ymlaen llaw, ni fydd y gweithrediadau a gynhelir ar y safle (ac eithrio'r gwaith dros dro) yn ddim mwy na'r lefelau sain a ganlyn mewn dB LAeq, 1 awr mewn derbynwyr sensitif i sŵn (NSR), wrth fesur ar uchder o 1.3 metr uwchben y ddaear ac mewn amodau maes rhydd:*

- *Pan fydd lefel y sŵn cefndir yn fwy na 45dB (A) yn NSR: Uchafswm terfyn sŵn yn ystod y dydd o 55dB (A)*
- *Lle mae lefel y sŵn cefndir yn llai na 45dB (A) yn NSR: Ni ddylai terfynau sŵn fod yn fwy na 10dB (A) uchod.*
- *Cyfyngiadau sŵn yn Lleoliad 1, 2 a 55dB (A), 56.2 dB (A) a 49.9 dB (A), yn y drefn honno*
- *Yn ystod gweithrediadau dros dro a thymor byr: Gall lefelau uwch fod yn rhesymol ond ni ddylent fod yn fwy na 67dB (A) am gyfnodau o hyd at 8 wythnos y flwyddyn mewn eiddo sy'n sensitif i sŵn, yn seiliedig ar ganllawiau NCTM 1. Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o'r dyddiadau y mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd a bydd ar gael i'r Awdurdod Cynllunio ar gais.*

5.25 Nid yw'r caniatâd presennol ar gyfer y gweithrediadau chwarela yn cynnwys unrhyw gyfyngiad ar ddirgryniad (o ffrwydro). Fodd bynnag, bydd amodau newydd yn cael eu cyflwyno yn unol â'r argymhelliad a gynhwysir yn y ddogfen ategol *'Potential for blast vibration damage to Manod Mine and buildings at Cwt y Bugail Quarry* (GWP Consultants, 2023). Bydd yr amodau ychwanegol hyn ar waith i sicrhau na wneir unrhyw ddifrod i geudyllau 'mwynglawdd' Manod o dan wagle cloddio'r chwarel fel y trafodir yn fanylach ym mharagraffau 5.52 i 5.64 yr adroddiad hwn.

5.26 Yn amodol ar yr amodau priodol, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol MWYN 3 a PCYFF 2 y CDLl.

**Ansawdd Aer a llwch**

5.27 Mae effeithiau ansawdd aer (llwch yn benodol) sy'n deillio o weithrediadau sy'n gysylltiedig â'r estyniad arfaethedig ar dderbynyddion lleol wedi cael eu hasesu ym mhennod 11 yr DA a'r asesiad effaith lwch sy'n cyd-fynd â nhw.

5.28 Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn unol â *'Guidance on the Assessment of Mineral Dust Impacts for Planning'* IAQM a daw i'r casgliad;

- *ystyrir nad yw'r effaith ar amwynder 'dim yn sylweddol';*
- *ystyrir bod yr effaith ar PM10 mewn perthynas ag iechyd pobl 'ddim yn sylweddol; a*
- *ystyrir bod yr effaith ar ddyddodiad llwch ar dderbynyddion ecolegol 'ddim yn sylweddol'.*

5.29 Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd i'r cais o ran ansawdd llwch ac aer a chan nad oes llawer o botensial i'r gweithrediadau arfaethedig achosi toriad mewn safonau ansawdd aer, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol MWYN 3 a PCYFF 2 y CDLl.

**Materion Traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin**

5.30 Nid yw'r bwriad yn cynnwys unrhyw newid i symudiadau cludo i'r safle ac oddi yno. Ar hyn o bryd, mae'r caniatâd cynllunio wedi'i gyfyngu i allbwn o 15,000 tunnell y flwyddyn gan ddefnyddio'r briffordd gyhoeddus ddi-ddosbarth/dosbarth 3 o Lan Ffestiniog i fyny Cwm Teigl. O Lan Ffestiniog, mae'r briffordd gyhoeddus ddosbarthedig yn ymuno â Chefnffordd yr A470.

5.31 Cyflwynodd Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gyfarwyddyd daliannol mewn ymateb i'r cyfnod ymgynghori cychwynnol ond maent wedi diddymu hyn o ystyried bod yr amod uchod yn aros yn ei le.

5.32 Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus Rhif 54 Ffestiniog (PROW) yn arwain o gefn y gweithdai (sydd o dan ganiatâd cynllunio ar wahân) ar hyd y llethrau i'r de o ffordd y chwarel cyn ymuno â ffordd gludo segur ar gyfer rhan fer ac i lawr tuag at Lyn Manod.

5.33 Nid yw swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol wedi nodi gwrthwynebiad i'r bwriad ac mae wedi gwneud sylw bod yn rhaid diogelu PROW Rhif 54 drwy gydol y datblygiad ac ar ôl rhoi'r gorau i weithrediadau ac adfer y safle.

5.34 I'r perwyl hwn, ystyrir nad yw'r cynnig yn peri unrhyw risg i'r rhwydwaith priffyrdd a hygyrchedd llwybrau troed ac mae yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 4 a TRA 4 y CDLl.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.35 Mae Pennod 8 y Datganiad Amgylcheddol yn darparu ac yn asesu amodau hydrolegol presennol y safle, asesu effeithiau a'r mesurau lliniaru arfaethedig.

5.36 O ran sensitifrwydd y safle, nid yw'n dod o fewn unrhyw barthau llifogydd dynodedig ar Fapiau Cyngor ar Ddatblygu Llywodraeth Cymru. Mae'r strata sy'n sail i'r safle wedi'i nodi fel Aquifer B Uwchradd ac nid oes unrhyw drwyddedau tynnu dŵr daear hysbys o fewn 2km i'r safle. Mae cyrsiau dŵr gerllaw'r safle yn bwydo i mewn i afon Teigl sydd yn ei hanfod ar eithafion gorllewinol dynodiad Migneint – Arenig – Dduallt (AGA, ACA a SoDdGA) felly nid oes cysylltiad hydrolegol rhwng y safle a'r fignen warchodedig ac nid yw'n cael ei ystyried yn dderbynnydd.

5.37 Mae'r asesiad yn nodi'r prif risg i hydroleg yr ardal fel solidau wedi'u hatal rhag prosesu dŵr ffo a mwynau yn ogystal â gollyngiadau damweiniol.

5.38 Bydd gwaith cloddio yn parhau mewn modd tebyg ag a wneir ar hyn o bryd. Caiff dŵr ffo o'r chwarel ei gyfeirio i wagle'r chwarel ac wedyn i mewn i wagleoedd Chwarel Manod sy'n gweithredu fel pyllau gwaddol ar gyfer solidau crog. Mae dŵr o weithrediadau prosesu yn cael ei ailgylchu ac mae unrhyw ddŵr budr o'r gweithfeydd yn cael ei fwydo trwy wasg hidlo cyn cael ei bwmpio i mewn i Chwarel Manod. Mae dŵr ffo oddi ar y safle wedi'i gyfyngu i lifo o'r pwll sy'n gorlifo i 'Lyn Ministry' (sydd i'r gorllewin o adeiladau prosesu'r chwarel) gydag unrhyw orlif yn bwydo afon Teigl.

5.39 Ar hyn o bryd mae'r chwarel yn dilyn mesurau lliniaru priodol rhag gollyngiadau damweiniol a fydd yn cael eu cadw. Mae'r rhain yn cynnwys;

- *Yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae'r holl gyfleusterau tanwydd a storio cemegol uwchben y ddaear wedi cael eu bwndio.*
- *Mae pecynnau ymateb i arllwysiadau brys yn cael eu cadw ar y safle.*
- *Mae system rheoli cerbydau/marciau ffordd wedi'u rhoi ar waith lle bynnag y bo modd i leihau'r gwrthdaro posibl rhwng cerbydau a thrwy hynny leihau'r risg o wrthdrawiad.*
- *Gosodir terfyn cyflymder ar y safle i leihau tebygolrwydd ac arwyddocâd unrhyw wrthdrawiadau.*

5.40 Mae CNC wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch hydroleg gydag ymestyn oes gwaith y chwarel yn amodol ar gydymffurfio â pharhau i ddefnyddio mesurau atal llygredd a chanllawiau arfer da.

5.41 Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol a pherygl llifogydd ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 6 a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion Ecolegol a Bioamrywiaeth**

5.42 Mae safle'r chwarel o fewn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol '1415 Chwarel Lechi Graig-ddu' ac wedi'i amgylchynu gan ddau Safle Bywyd Gwyllt arall '1401 Moel Penamnen' a 1402 Manod Mawr'. Er nad yw'r safle ei hun o fewn safle gwarchodedig ddynodedig, mae Ardal Gwarchod Arbennig (AGA) a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar y pwynt agosaf tua 350m i'r de-ddwyrain o ardal brosesu'r chwarel.

5.43 Mae pennod 7 y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys Asesiad Effaith Ecolegol (EcIA) ac ymgynghorwyd â CNC ac Uned Bioamrywiaeth yr awdurdod lleol ar ei gynnwys.

5.44 Cododd swyddog bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol bryderon am ardal yn y rhan fwyaf ogleddol o ffin y safle sydd yn yr ardal gymeradwy ar gyfer cloddio mwynau ond sydd eto i'w chloddio/chwarela. Mae'r ardal hon oddeutu 0.5ha o ran maint ac yn cynnwys glaswelltir ucheldirol, rhostir a chors, brigiadau creigiau a phocedi bach o fawn ac mae'n ardal o werth bioamrywiaeth uchel. Er gwaethaf colli'r tir hwn, mae'r swyddog bioamrywiaeth wedi argymell bod y mesurau lliniaru yn cael eu darparu o fewn y cynllun adfer.

5.45 Mae'r EcIA yn cynnig mesurau lliniaru ar gyfer gwarchod adar bridio/nythu gan fod y chwarel (a'r cyffiniau) yn gynefin addas. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys;

- *Bydd llystyfiant yn cael ei dynnu y tu allan i'r tymor bridio;*
- *Byddai ardaloedd ble tynnwyd y llystyfiant, ardaloedd sy'n cael eu cloddio neu eu tipio'n flaenorol sydd wedi bod yn segur ond yn dod yn ôl i gael eu defnyddio (h.y., ailraddio, tipio arnynt neu debyg) y tu allan i'r tymor bridio;*
- *Byddai unrhyw waith atgyweirio neu ddymchwel adeiladau neu strwythurau allanol yn cael ei wneud y tu allan i'r tymor bridio.*
- *Os nad yw hyn yn bosibl, bydd ecolegydd sydd â phrofiad addas yn chwilio am lystyfiant/yr ardal yr effeithiwyd arni yn union cyn y gwaith, fel y gellir nodi safleoedd bridio, ac oedi cyn eu clirio nes bod unrhyw adar ifanc wedi hedfan.*

5.46 Yn ogystal â'r argymhellion hyn, mae'r swyddog bioamrywiaeth a CNC wedi gofyn am amodau ychwanegol ar gyfer monitro cynllun difa rhywogaethau anfrodorol a chyflwyno cynllun adfer (mwy) manwl a ddylai gynnwys creu cynefinoedd, lle gellir gosod priddoedd fel mawn a chaniatáu llystyfiant.

5.47 Ar 7 Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n ymdrin ag isadeiledd gwyrdd, gwerth net i fioamrywiaeth, y gwarchodaeth a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd. Mae'r newidiadau i PCC wedi cael eu hystyried, fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid ydynt yn codi unrhyw faterion newydd sydd ag unrhyw ddylanwad materol ar yr argymhelliad.

5.48 Wrth ystyried yr uchod, mae'r bwriad yn dderbyniol yn amodol ar y mesurau lliniaru priodol ac mae'n cydymffurfio â pholisïau AMG 5, AMG 6, PS 19 y CDLl ar y Cyd a NCT 5.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

5.49 Yn unol â rheoliad 63 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, mae'r ymgeisydd wedi darparu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan fod y bwriad oddeutu 350m o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) 'Migneint-Arenig-Dduallt', Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r dynodiad ACA yn cynnwys rhostiroedd sych Ewropeaidd a Mignenni; gyda chynefinoedd cymwys ychwanegol: rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd; llynnoedd a phyllau dystroffig; llynnoedd *oligotrophic* i mesotroffig; a hen goed derw mes digoes gyda'r AGA a nodwyd fel ardal ucheldir gydag Atodlen 1 (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) rhywogaethau adar megis y Boda Tinwyn *Circus cyaneus*, Y Cudyll Bach *Falco columbarius* a'r Hebog Tramor *Falco peregrinus*.

5.50 Mae Atodiad 7/4 y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys sgrinio ARhC sydd wedi nodi ac asesu'r tebygolrwydd o effeithiau posibl ar y dynodiadau.

5.51 Rhaid i Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cymwys, dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), cyn penderfynu rhoi caniatâd am brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dynodiadau. Mae'r Uned Bioamrywiaeth wedi sgrinio'r bwriad ac yn cytuno nad oes effeithiau sylweddol tebygol (LSE) ar unrhyw un o'r cynefinoedd cymwys o fewn yr ACA, AGA neu'r SoDdGA. Mae CNC wedi cadarnhau ein bod yn cytuno â'r asesiad hwn gan na fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar y safleoedd hyn.

**Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol**

5.52 Mae maint y ffin yn y caniatâd cynllunio presennol yn rhannol gorgyffwrdd gyda rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO 'Tirwedd Lechi Gogledd-orllewin Cymru' (STyB) (yn benodol inclein segur ar gyrion gorllewinol y safle). Mae dynodiadau cyfagos yn cynnwys cyfeirnod Henebion Cofrestredig 'CN413 Chwarel Diffwys', 'CN414 Chwarel Rhiwbach, tramffordd a system inclein', 'ME137 Anheddiad cylch cytiau Gamallt'.

5.53 Codwyd pryderon gan CADW yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ynghylch digonolrwydd yr wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â threftadaeth ddiwylliannol fel y'i cynhwysir ym mhennod 9 y Datganiad Amgylcheddol (DA). Roedd y pryderon hyn yn benodol mewn perthynas ag effeithiau gweithrediadau chwarela (ffrwydro/dirgryniad) nodweddion hanesyddol nas dynodwyd yn y chwarel yn ymwneud â storio gweithiau celf o bwys cenedlaethol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

5.54 Mewn ymateb i'r bygythiad o fomio o'r awyr yn Llundain, yn wreiddiol fe wnaeth yr Oriel Genedlaethol wagio ei chasgliad celf i wahanol gartrefi urddasol ledled Cymru o dan y 'Cynllun Gwasgaru Cymreig'. Gyda bygythiad cynyddol o ymosodiad gan yr Almaen, dewiswyd Chwarel Manod fel lleoliad cyfleuster storio celf cyfrinachol ac arbenigol. Addaswyd rhwydwaith presennol o ogofâu mwyngloddiau llechi tanddaearol y gellid mynd atynt o gronfa ddŵr 'Llyn Ministry' (a leolir yn union i'r gorllewin o'r siediau prosesu presennol) rhwng 1940 a 1941 i ddiogelu'r gweithiau celf o bwys diwylliannol mewn amgylchedd rheoledig a oedd yn gofyn am siambrau storio, offer awyru, cyflenwadau trydanol a dŵr a generaduron wrth gefn.

5.55 Ni wnaeth y wybodaeth a gyflwynwyd yn wreiddiol ym Mhennod 9 (Treftadaeth Ddiwylliannol) y DA unrhyw gyfeiriadau at y storfeydd hyn. Roedd CADW o'r farn bod y cyfleusterau storio celf yn asedau hanesyddol nad oeddent wedi'u dynodi o bwysigrwydd cenedlaethol ac roedd angen asesu pellach. Mewn ymateb i gais CADW am ddogfennau; Cyflwynwyd *'Heritage Assessment and Statement of Significance (Cotswold Archaeology*, Ionawr 2024)' a '*Potential for blast vibration damage to Manod mine and buildings at Cwt y Bugail quarry* (GWP consultants Rhagfyr 2023) i gefnogi'r cais.

5.56 Mae'r datganiad o arwyddocâd yn ystyried bod y cyfleuster storio o werth uchel ar y cyfan o ran gwerth tystiolaethol, hanesyddol a chymunedol. O safbwynt arwyddocâd esthetig a chorfforol, daw i'r casgliad mai dim ond gwerth tystiolaethol cymedrol sy'n weddill o ran yr olion ffisegol adeiledig.

5.57 Mae'r adroddiad yn sefydlu bod y cyfleusterau storio wedi cael eu cynnal a'u huwchraddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) mewn trefn waith gyflawn a thaclus nes i benderfyniad llys orfodi ildio prydles y safle ym 1983 ar gyfer ailddechrau gweithgareddau chwareli llechi yn Chwarel Manod (Cwt y Bugail). Yn dilyn hynny, mae cyflwr y cyfleuster wedi dirywio'n gyflym. Ers i'r MoD ildio'r cyfleuster, mae'r generaduron, goleuadau, rhesel hongian lluniau i gyd wedi'u tynnu gydag ychydig o offer wedi eu gadael ar ôl yn y fan ac mae'r hyn sy'n weddill o'r strwythurau mewn cyflwr gwael a dirywiol. Mae ansefydlogrwydd toeau'r ceudyllau hefyd yn cyfyngu mynediad corfforol diogel i'r safle.

5.58 O safbwynt hanesyddol, mae'r safle'n dystiolaeth o ymdrech genedlaethol i ddiogelu darnau celf diwylliannol arwyddocaol o'r Palasau Brenhinol, Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol, darluniau Matisse o'r Amgueddfa V&A, casgliad Rothchild (yn ogystal â 30 o gasgliadau eraill) yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'u cadw at y defnydd hwn yn ystod y Rhyfel Oer. Mae'r rheolaethau amgylcheddol a ddefnyddir i gynnal lleithder cyson a thymheredd yn y cyfleuster wedi cael ei ddylanwadu’n uniongyrchol gan ddealltwriaeth wyddonol uwch o dechnegau cadwraeth a chadwraeth gwaith celf a phaentiadau.

5.59 Mae'r adroddiad yn nodi bod gwerth cymunedol/diwylliannol y safle yn arwyddocaol o ystyried yr ymdrech a'r cyfalaf helaeth a wariwyd wrth ddiogelu celf yn ystod rhyfel, yr erthyglau niferus ac ymchwil gyfoes ac archif o wybodaeth a gadwyd gan yr Oriel Genedlaethol yn ogystal â diddordeb y cyhoedd wedi'r rhyfel a sibrydion y Rhyfel Oer bod y cyfleuster yn cael ei gynnal i'w ddefnyddio gan y teulu brenhinol neu fel canolfan i'r llywodraeth.

5.60 Daw'r adroddiad i'r casgliad, er nad oes unrhyw amddiffyniadau deddfwriaeth cadwraeth na threftadaeth, fod y safle o werth treftadaeth uchel ac o bwysigrwydd cenedlaethol.

5.61 Daw'r adroddiad gan GWP Consultants i'r difrod dirgryniad posibl o ffrwydro i'r casgliad y dylid addasu dulliau ffrwydro presennol unwaith y bydd y gwaith o fewn 60m i rannau bregus o'r mwyngloddiau.

5.62 Cyflwynwyd pennod dreftadaeth ddiwygiedig o'r DA gan yr ymgeisydd i gynnwys asesiad pellach o effaith y cynigion ar STyB, a'r gwaith ychwanegol a wnaed i asesu'r ceudyllau.

5.63 Mae CADW wedi adolygu'r ddwy ddogfen ac maent bellach yn fodlon bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno fel eu bod wedi dod i'r casgliad y gellir cynnal gwaith cloddio heb niweidio'r cyfleuster storio celf. Mae CADW wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad yn amodol ar osod amodau perthnasol ar y caniatâd cynllunio. Bydd yr amodau'n cynnwys cyfyngiadau ar weithgareddau ffrwydro (fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn) a gofyniad am raglen i gofnodi adeiladau i ledaenu'r canfyddiadau.

5.64 Yn ddibynnol ar yr amodau priodol a'r mesurau lleddfu, ystyrir na fydd y bwriad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi ac felly, mae'n cydymffurfio â pholisïau PS20, AT 1 ac AT 4 y CDLl ar y Cyd.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.65 Mae Adran 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am 'Ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy’n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy;

5.66 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg. Mae Pennod 6 y datganiad yn asesu unrhyw effeithiau posibl y datblygiad ar yr iaith a'r gymuned leol drwy ystyried;

- symudiad iaith a phoblogaeth posib.

• elfennau gweledol.

• ansawdd bywyd yn cynnwys isadeiledd gymunedol.

• cyflogaeth.

5.67 Felly, daw'r datganiad i'r casgliad y bydd y bwriad i ymestyn oes y chwarel yn cefnogi cadw'r gweithlu presennol. Gan na fydd y datblygiad arfaethedig yn gofyn am unrhyw weithlu ychwanegol, mae'n annhebygol o arwain at unrhyw newidiadau yng nghydbwysedd siaradwyr Cymraeg, strwythur oedran, ymfudo (y gweithlu).

5.68 Ar sail natur y cais a'r dystiolaeth sydd i law, ni ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r bwriad yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Felly, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 o'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y CCA Cynnal a Chreu Cymunedau unigryw a chynaliadwy.

**Yr economi**

5.69 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o’r gweithgaredd yn yr economi. Mae’n bwysig bod y system gynllunio’n cydnabod yr agweddau economaidd ar bob datblygiad a bod penderfyniadau cynllunio’n cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy gan bwyso a mesur ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’n datgan ymhellach; Y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i’r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.70 Mae'r bwriad mae'r cais yn ymwneud ag o yn hanfodol i ymestyn gwaith cloddio mwynau yn y chwarel a byddai'n sicrhau yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol swyddi/cyflogaeth cysylltiedig eraill (megis cludiant, peiriannau a pheirianneg).

5.71 Mae’r cwmni’n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i’r economi leol a chyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws yr iaith Gymraeg yn yr ardal.

5.72 Felly, ystyrir y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi’r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a NCT 23.

**6. Casgliad:**

6.1 Mae hwn yn gais i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2048 yn Chwarel Cwt y Bugail (Manod) drwy amrywio amod. Fel y trafodwyd uchod, mae'r egwyddor o ymestyn cyfnod gwaith y chwarel yn dderbyniol ac yn cael ei chefnogi gan bolisïau lleol PS 22, MWYN 3 a yn genedlaethol gan PPC 12 a NCTM 1.

6.2 Oherwydd lleoliad, graddfa a'r rheolaethau sefydledig ynghylch sŵn, llwch a materion amgylcheddol, ystyrir nad yw ymestyn y gweithgareddau yn debygol o arwain at unrhyw amwynderau gweledol a phreswyl niweidiol, mae CNC a'r Uned Bioamrywiaeth yr awdurdod lleol wedi cadarnhau bod y bwriad yn dderbyniol o ran effaith ecolegol yn amodol ar ddefnyddio amodau perthnasol.

6.3 Mae CADW wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad o ran materion treftadaeth yn amodol ar osod amodau perthnasol ar y caniatâd cynllunio. Bydd yr amodau hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar weithgareddau ffrwydro i amddiffyn cyfleusterau storio celf yr Ail Ryfel Byd sydd wedi'u lleoli yn y ceudyllau a gofyniad am raglen i gofnodi adeiladau.

6.4 Mae'r datblygiad arfaethedig, felly, yn cydymffurfio â'r holl bolisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ac argymhellir bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi yn amodol ar amodau.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r canlynol:

- Y gwaith i ddod i ben ar 31/12/2048, adfer y safle erbyn 31/12/2049.
- Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r lluniad/manylion/cynlluniau/gwybodaeth a gyflwynwyd.
- Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau ynghyd â'r ardaloedd tipio.
- Dirymu hawliau GPDO Rhannau 19 a 21 ar gyfer offer neu beiriannau sefydlog, adeiladau a strwythurau a gwastraff mwynau.
- Terfyn allforio o 15,000 tunnell y flwyddyn.
- Deunydd wedi'i allforio wedi'i gyfyngu i'r briffordd gyhoeddus bresennol.
- Gweithrediadau tipio i'w cyfeirio tuag at y tirffurf terfynol.
- Capasiti tipio wedi'i ddiweddaru.
- Rheoli cyfyngiadau sŵn.
- Cyfyngu ar ffrwydro rhwng 07:00 a 20:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dim ffrwydro ar ddydd Sul na gwyliau banc na chyhoeddus.
- Cyflymder gronynnau brig wedi'i gyfyngu i 50mm/ s ar gyfer 95% o ffrwydradau gorlwytho dros gyfnod o dri mis a heb fod yn fwy na 60mm/ s ar unrhyw adeg.
- Rhaid mesur anterth cyflymder gronynnau ar y pwynt agosaf at safle'r ffrwydrad o fewn yr ardal gysgodol a ddangosir yn Lluniad Cyfeirnod WCYBG2312 Rhif 10.
- Monitro gweithrediadau ffrwydro i gofnodi cyflymder gronynnau brig.
- Adolygiad bob pum mlynedd o'r gweithrediadau.
- Cyflwyno'r adolygiad cyntaf o fewn 12 mis.
- Cynllun Adfer manwl.
- Gwaith adfer graddol / blaengar.
- 5 mlynedd ôl-ofal/monitro.
- Bydd cynllun ailfodelu tirffurf yn cael ei gymhwyso i feinciau Chwarel y North Pole a wynebau cysylltiedig fel y nodir ar gynlluniau ar gyfer creu tirffurf sefydlog a nodweddion i gyd-fynd â bwtresi a chreigiau a sgri cyfagos.
- Ar ôl rhoi'r gorau i weithio, bydd y chwareli/peiriannau/deunyddiau/offer yn cael eu clirio a bydd y safle'n cael ei gadael mewn cyflwr glân/taclus, meinciau chwarel yn cael eu paratoi, eu trin a'u plannu gyda fflora o darddleoedd lleol, ffyrdd cludo i gael eu symud.
- Cyfyngu mynediad i dda byw i'r ardaloedd sydd wedi'u hadfer.
- Dim peiriannau nac offer i'w gweithredu heb sgriniau 'lladd' sain priodol ac wedi'u cynnal yn iawn, distawyddion ac ati.
- Bydd pob cerbyd sy'n cludo deunydd crai neu wastraff yn cael eu gweithredu mewn modd fel nad ydynt yn cynhyrchu gormod o sŵn.
- Dim gweithrediadau fydd yn achosi i lwch ffoi godi a bod pob ardal sy'n cael eu tramwyo gan gerbydau yn cael eu dyfrio i lawr.
- Bydd cael gwared ar lystyfiant, atgyweirio neu ddymchwel adeiladau a gweithio ardaloedd ble yn flaenorol cafodd mwynau eu tynnu/chwarelu/tipio yn digwydd y tu allan i'r tymor nythu er mwyn gwarchod adar sy'n nythu. Ecolegydd cymwys
- Dim gweithrediadau i'w gwneud ar yr wyneb heb dynnu a storio'r pridd uchaf, isbriddoedd a mawn.
- Priddoedd uchaf ac isbriddoedd i'w hailddefnyddio cyn gynted â phosibl (Wrth adfer).
- Priddoedd uchaf i gael eu storio mewn twmpathau heb fod yn fwy na 2m o uchder.
- Cofnodi adeilad hanesyddol y cyfleusterau storio celf a Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig.
- Cynllun monitro a difa rhywogaethau anfrodorol/ymledol.